# SL(5)764 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

## Cefndir a diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae Atodlen 6 yn rhestru'r unigolion a'r sefydliadau y mae Mesur 2011 yn berthnasol iddynt ac yn nodi'r safonau a allai fod yn berthnasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 6 i Fesur 2011 trwy ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yr effaith yw y bydd y safonau canlynol, o bosibl, yn berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforedig:

- safonau cyflenwi gwasanaethau,
- safonau llunio polisi,
- safonau gweithredu,
- safonau hybu, a
- safonau cadw cofnodion.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau eraill a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Dylai pennawd y Rheoliadau gynnwys "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU" yn ogystal ag "Y GYMRAEG", i nodi maes y gyfraith y mae'r offeryn yn ymwneud ag ef.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn ôl y rhaglith, "gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o [Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021]."

Mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad fod at adran 174(4) a 5*(k)* [*ychwanegwyd y pwyslais*], gan fod paragraff (k) o is-adran (5) yn darparu bod is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 83 (cyd-bwyllgorau corfforaethol: atodol ac ati).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae adran 'Cefndir Deddfwriaethol' y Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

> "*Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd yn rhinwedd paragraff 35 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*"

Fodd bynnag, mae'r rhaglith i'r Rheoliadau yn dyfynnu adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gywir fel y ddarpariaeth sy'n nodi'r weithdrefn seneddol sy'n berthnasol i'r offeryn hwn. Nid yw'n eglur pam y cyfeirir yn y Memorandwm Esboniadol at baragraff 35 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan nad yw'n ymddangos bod y ddarpariaeth yn berthnasol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Mawrth 2021**